Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Cylch Meithrin Llannerch-y-medd

**Ysgol Gymuned Llannerch-y-medd**
**Llannerch-y-medd**
**Ynys Môn**
**LL71 8DP**

**Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2012**

**gan**

**Mr W Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/07/2012**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Llannerch-y-medd yn rhan o ddarpariaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn ac yn darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant pentref Llannerch-y-medd a'r ardal wledig o'i gwmpas. Mae'r lleoliad yn cyfarfod mewn ystafell a neilltuwyd ar eu cyfer yn Ysgol Gynradd Llannerch-y-medd. Mae natur gymdeithasol ac economaidd yr ardal yn amrywio o fod yn ddifreintiedig i freintiedig.

Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol nac yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn mynychu'r lleoliad.

Darperir sesiynau o ddwy awr a hanner am bedwar bore'r wythnos ar gyfer plant dyflwydd a hanner i dair blwydd oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Ar hyn o bryd, mae wyth plentyn tair oed wedi'u cofrestru yn y lleoliad gyda chwech ohonynt yn cael eu hariannu gan y Bartneriaeth.

Mae'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol yn Gymraeg ei hiaith a'i diwylliant. Cymraeg yw iaith cartref bron pob plentyn. Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad yw Cymraeg.

Cefnogir addysg y plant gan dair ymarferydd llawn amser ac ymarferydd arall sydd o dan hyfforddiant. Mae pob ymarferydd llawn amser wedi cymhwyso'n briodol i addysgu'r blynyddoedd cynnar ac wedi cael eu penodi ers Mai 2011.

Wedi i'r plant orffen eu cyfnod yn y lleoliad, byddant yn parhau gyda'u haddysg yn Ysgol Gynradd Llannerch-y-medd.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru ym Mawrth eleni a chan Estyn yng Ngorffennaf 2006.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyffredinol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn cyflawni'n dda mewn gweithgareddau ac yn datblygu medrau dysgu cadarnhaol;
- ymddygiad da'r plant a'r gofal sydd ganddynt tuag at ei gilydd yn nodwedd amlwg o'r lleoliad;
- bron pob plentyn yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn dangos diddordeb yn ei waith;
- profiadau dysgu hyblyg a symbylol yn ennyn diddordeb a chymhelliant pob plentyn a'i alluogi i wneud cynnydd da, a bod
- ansawdd addysgu yn dda gyda'r ymarferwyr yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu plant.

**Rhagolygon gwella**

Mae perfformiad cyffredinol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- synnwyr cryf o ddiben yr arweinydd yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau'n effeithiol;
- y pwyllgor rheoli yn cyflawni ei gyfrifoldeb yn drylwyr iawn;
- disgwyliadau ar gyfer sicrhau gwelliant yn uchel;
- yr arweinydd yn cefnogi ac herio pawb yn weithredol i ymdrechu orau y gallant;
- hunan-arfarnu'n datblygu'n dda, a'r
- lleoliad yn manteisio'n sylweddol o'r bartneriaeth gynhyrchiol sydd rhyngddo a'r ysgol gynradd.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 wneud mwy o ddefnydd o ddeilliannau asesu i gynllunio ar gyfer y dyfodol:
A2 barhau i ddatblygu trefniadau hunan-arfarnu; a
A3 chynyddu'r adnoddau ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob plentyn yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd realistig o'i fan cychwyn ym mhob maes dysgu. Ar y cyfan, mae'r holl blant yn gweithio yn unol â'u gallu llawn ac yn brysur yn meddwl am wahanol dasgau a gwneud dewisiadau. Mae'r rhan fwyaf yn cyflawni'n dda mewn gweithgareddau ac yn datblygu medrau dysgu cadarnhaol. Gan mwyaf, mae'r holl blant yn ymdrechu'n galed iawn, yn canolbwyntio'n dda wrth weithio ar dasgau sy'n cryfhau ac yn datblygu eu dysgu.

Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn meddu ar fedrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu da sy'n eu galluogi i fanteisio'n llawn ar y cwricwlwm ehangach. Gwna'r rhan fwyaf o'r plant ddefnydd da o'u medrau meddwl.

Wrth iddynt wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu a mynd i'r afael â thasgau ymarferol, gwna'r rhan fwyaf o'r plant gynnydd da yn eu medrau cyfathrebu. Fel aelodau o grŵp ac fel unigolion, llwyddant i fynegi eu teimladau yn glir ac i gyfleu eu syniadau mewn sgwrs neu gân gydag eglurder cynyddol. Yn ystod sesiynau torfol, mae llawer o'r plant yn gwrando'n astud ar gwestiynau a chyfarwyddiadau ac yn cyfrannu'n adeiladol i drafodaethau. Wrth chwarae rôl yn y caffi, mae'r mwyafrif yn defnyddio iaith sy'n briodol i'r sefyllfa ac yn gallu efelychu ieithwedd y cymeriad maent yn ei ddynwared.

Gyda neu heb oedolyn, mae plant o bob gallu yn dangos brwdfrydedd a diddordeb mewn llyfrau stori ac yn mwynhau eu cynnwys, gan eu trin fel darllenwyr. Gall llawer ohonynt ddewis llyfrau yn annibynnol tra bo ychydig wedi dechrau defnyddio strategaethau elfennol ar gyfer adnabod llythrennau a geiriau cyfarwydd, megis enwau plant eraill yn y grŵp. Wrth arbrofi gyda gwahanol gyfryngau i wneud marciau, daw'r rhan fwyaf o'r plant i ddechrau deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu, megis creu rhestr neu anfon llythyr.

Mae'r ychydig o blant nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref, yn gwneud cynnydd da yn eu dealltwriaeth o'r Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn deall llawer mwy o eiriau nag y gallant eu siarad ac yn ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg yn hyderus iawn.

**Lles: Da**

Mae pob plentyn yn mwynhau ei amser yn y lleoliad ac yn ffurfio perthynas glos gyda phlant eraill a'r ymarferwyr. Nodwedd amlwg iawn o'r lleoliad yw ymddygiad da'r plant a'r gofal sydd ganddynt tuag at ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ystyriol o deimladau plant eraill ac yn cydweithio'n gytûn wrth ymwneud â gweithgareddau penodol neu dasgau o'u dewis hwy eu hunain,.

Mae bron pob plentyn yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn dangos diddordeb yn ei waith. Gallant ddal ati ar un dasg gyda llawer o'r plant yn arddangos lefelau uchel o annibyniaeth a chanolbwyntiad.

Mae dealltwriaeth yr holl blant o sut y gallant ddod yn iach drwy'r hyn maent yn ei fwyta a'r gweithgarwch corfforol maent yn ymgymryd ag ef, yn gadarn. Wrth sgwrsio ag ymwelydd, dywed plant eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad a'u bod yn rhydd oddi wrth gam-drin corfforol neu eiriol

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gydgynllunio manwl, llwydda'r ymarferwyr i ddarparu profiadau dysgu hyblyg a symbylol sy'n ennyn diddordeb a chymhelliant pob plentyn a'i alluogi i wneud cynnydd da tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cylch themâu yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol plant ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da mewn dysgu. Mae'r pwyslais cryf a roddir ar annog plant i fod yn weithredol yn eu dysgu yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ffurfio perthynas glos ag eraill ac i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu gwaith ac i ddatblygu'n ddysgwyr hyderus. Cânt anogaeth gyson i fentro, i fod yn oddefgar tuag at blant eraill ac i ddatblygu meddwl ymchwilgar.

Mae'r ddarpariaeth gynhwysfawr yn sicrhau bod plant yn caffael y medrau llythrennedd a chyfathrebu fydd yn eu galluogi i wneud cynnydd da ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae'r cyfleoedd a ddarperir i blant ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a chodi eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant, gwyliau a thraddodiadau Cymru o ansawdd da. Trwy chwarae rôl a chlywed am hanes plant mewn gwledydd eraill, yn ogystal â chodi arian at elusennau, daw plant yn fwyfwy ymwybodol o'u rôl fel dinasyddion byd-eang. Er bod gan y lleoliad drefniadau addas ar gyfer ailgylchu gwastraff, nid oes gan blant rôl digon gweithredol yn y prosesau hyn.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn fedrus yn eu gwaith ac yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu'r plant. Maent yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu'r plant. Caiff profiadau dysgu ysgogol eu darparu ar draws pob maes dysgu a defnyddir ystod dda o strategaethau dysgu er mwyn sicrhau ymglymiad plant o bob gallu. Llwydda'r ymarferwyr i gynnal cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a'r rhai sy'n cael eu harwain gan oedolion. Gwneir defnydd dychmygus o amrywiaeth o adnoddau i ddenu diddordeb plant ac i wella dysgu. Mae'r ymarferwyr, gan mwyaf, yn fodelau iaith da eu hunain ac yn defnyddio cwestiynu yn effeithiol i herio plant a gwella eu dysgu.

Mae'r lleoliad yn asesu plant yn rheolaidd ac yn gynhwysfawr ac yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau yn fanwl i fesur cynnydd a lles plant ar draws pob maes dysgu. Yn ddiweddar, mae'r ymarferwyr wedi dechrau defnyddio gwybodaeth asesu i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol sy'n bodloni anghenion a diddordebau pob plentyn unigol. Fodd bynnag, arfer newydd yw hwn ac nid yw eto wedi sefydlu'n gadarn yn nhrefniadau cynllunio ac asesu'r lleoliad.

Caiff rhieni wybodaeth ddefnyddiol am gyflawniad, lles a datblygiad eu plant a sicrha'r arweinydd bod ganddynt ran weithredol yn y prosesau asesu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae polisïau a threfniadau effeithiol yn y lleoliad ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles plant. Caiff plant eu hannog i fwyta'n iach yn ystod byrbrydau, i ofalu am eu hylendid personol ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Teimla'r plant yn hapus a diogel yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac maent yn barod i ofyn am gymorth ac arweiniad os cyfyd yr angen. Mae'r ymarferwyr yn gwybod sut i ymateb yn briodol i unrhyw heriau mewn perthynas ag ymddygiad gwael.

Mae'r trefniadau sefydlu effeithiol, ynghyd â'r berthynas glos gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad. Nodir anghenion dysgu plant yn fuan iawn pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad a sicrha'r ymarferwyr bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu. Pan gyfyd achosion penodol, mae'r ymarferwyr yn rhagweithiol wrth ofyn am gymorth gan wasanaethau arbenigol. Mae'r lleoliad yn bodloni rheoliadau diogelu yn llawn ac yn sicrhau diogelwch plant bob amser. Mae gan y lleoliad bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau ar ddarperir ar eu cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod y plant ac aelodau'r staff yn rhydd oddi wrth aflonyddwch. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd angenrheidiol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Llwydda'r ymarferwyr i greu amgylchedd ysgogol lle y gall pob plentyn fanteisio'n llawn o'i brofiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Ac eithrio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, mae cyflenwad digonol o adnoddau o ansawdd da ym mhob un o'r meysydd dysgu. Cânt eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Caiff adnoddau helaeth yr ysgol gynradd ynghyd â'r ardal leol eu defnyddio'n ddychmygus i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r adeiladau o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae synnwyr cryf o ddiben yr arweinydd yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau'n effeithiol. Caiff yr addysgu a'r dysgu eu rheoli'n dda, a gweithredir polisïau'r lleoliad yn effeithiol er budd a lles plant. Mae disgwyliadau ar gyfer sicrhau gwelliant yn uchel gyda'r arweinydd yn cefnogi staff yn dda ac yn gosod her i bawb i wneud eu gorau. Sefydlwyd gweithdrefnau effeithiol ar gyfer rheoli a gwerthuso perfformiad staff ac adnabod eu hanghenion datblygiad proffesiynol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn cyd-rannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu,

ymddygiad a pherthynas. Gwnânt yn siŵr bod y Cyfnod Sylfaen a blaenoriaethau cenedlaethol eraill, yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus. Mae'r berthynas gyda phlant, y rhieni a chyda'r ysgol gynradd yn gadarnhaol iawn ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at greu ymdeimlad o gymuned.

Cyflawna'r pwyllgor rheoli ei gyfrifoldeb yn drylwyr iawn ac mae'n llais dylanwadol yn natblygiad y lleoliad. Mae'n cynnig cefnogaeth gref i'r arweinydd ac wrth law'n gyson i gynnig cymorth.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth briodol o gryfderau'r lleoliad a'r agweddau sydd angen gwelliant. Maent yn ddiweddar wedi cynnal arfarniad o waith y lleoliad ac wedi defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol mewn cynllun datblygu manwl i flaenoriaethu'r materion y maent yn dymuno eu gwella. Mae hunan arfarnu yn cymryd sylw gofalus o farn rheini ac yn manteisio'n sylweddol ar gyngor athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio. Fodd bynnag, er bod hunan-arfarnu'n effeithiol, ar hyn bryd, mae yn ei ddyddiau cynnar.

Mae ymarferwyr yn cael eu cefnogi'n dda gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus gynhwysfawr a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol a Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod staff yn caffael gwybodaeth a medrau newydd yn rheolaidd a'u bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ymarferwyr yn rhannu arfer dda o fewn y lleoliad yn gyson ac yn myfyrio ar eu harfer eu hunain.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaethau yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant. Mae partneriaeth gynhyrchiol iawn gyda'r ysgol gynradd. Manteisia'r lleoliad yn fawr o'r defnydd a gaiff o adnoddau a chyfleusterau'r ysgol. Mae'r arfer o neilltuo cyfnodau i blant y lleoliad dderbyn gwersi canu gan athrawes Cyfnod Sylfaen yr ysgol yn hwyluso'r trefniadau trosglwyddo yn sylweddol. Mae cysylltiadau cryf gyda nifer o sefydliadau'r pentref. Mae ymarferwyr, gan gynnwys yr arweinydd, yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni ym mhob agwedd o waith y lleoliad. Cânt eu hysbysu'n rheolaidd am yr holl weithgareddau a'u hannog i gyfranogi yn addysg eu plant.

Mae ymweliadau, adroddiadau a chyngor proffesiynol cyson athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygiad y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio gyda'i gilydd yn dda, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd, os bydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n dda i addysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a defnyddir staff yn effeithiol i wneud y defnydd gorau posib o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad. Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth drylwyr iawn o'u

cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n hynod o ofalus gan yr arweinydd a'r trysorydd i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, cynnydd a lles plant.  Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

**Ymatebion i drafodaethau gyda phlant**

Mae plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad ac yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu gefnogaeth

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |